# Natur Drws Nesaf

## Mathau o Grwpiau Cymunedol (Cymru a Lloegr)

### Cymdeithas Anghorfforedig

Os mai dim ond grŵp bach o wirfoddolwyr ydych chi, heb unrhyw gynlluniau i gyflogi staff neu rentu eiddo, dyma'r un i chi.

Dyma'r grŵp hawsaf i'w sefydlu. Y cyfan sydd arnoch ei angen yw ysgrifennu "cyfansoddiad" neu "ddogfen lywodraethu". Dyma restr o reolau ar gyfer y grŵp. Mae hefyd yn dweud beth mae'ch grŵp yn mynd i'w wneud, a sut mae'n mynd i'w wneud.

**Y math yma o grŵp:**

- nid oes rhaid iddo fod yn elusen (er gallwch sefydlu elusen os ydych yn dymuno). Bydd angen i chi gael cyngor swyddogol os ydych chi eisiau bod yn elusen.
- nid yw'n strwythur cyfreithiol ar wahân. Mae hyn yn golygu na all y grŵp gymryd contract neu fod yn berchen ar eiddo - ond gall aelodau unigol wneud hynny.
- gydag aelodau sy'n pleidleisio am yr hyn y dylai'r grŵp ei wneud.
- gall y grŵp ddod yn fath gwahanol o grŵp neu elusen yn ddiweddarach.

Edrychwch ar ein dogfen ar wahân am "Sefydlu Grŵp Cymunedol" am wybodaeth am gymdeithasau anghorfforedig.

### Corfforedig ac Anghorfforedig

Y gwahaniaeth rhwng y ddau beth yma yw a oes gan eich grŵp "bersonoliaeth gyfreithiol" ei hun ar wahân. Gall grŵp corfforedig gyflogi pobl, cymryd contract neu rentu eiddo. Os oes unrhyw ddyled, y grŵp sy'n berchen ar y ddyled honno nid y bobl sy'n rhedeg y grŵp. Mae hyn yn golygu bod grŵp corfforedig yn cael ei reoleiddio'n fwy nag un anghorfforedig. Mae'n debyg y byddwch angen help gan gyfrifwyr a chyfreithwyr.

Enghreifftiau o grwpiau corfforedig:

- Cwmni Budd Cymunedol (CIC)
- Cwmni Cyfyngedig trwy Warant
- Sefydliad Corfforedig Elusennol
- Cymdeithas Budd Cymunedol
- Cymdeithas Gydweithredol

Made possible with Heritage Fund

The Queen's Platinum Jubilee 2022

The Wildlife Trusts

Ar y llaw arall, dim ond grŵp o unigolion yw grŵp anghorfforedig. Os bydd rhywun yn mynd i ddyled ar ran y grŵp, mae'r person hwnnw'n atebol am y ddyled honno. Gan fod y rhan fwyaf o grwpiau cymunedol yn fach iawn a ddim yn trin llawer o arian, mae'r risg yn isel mewn gwirionedd.

Enghreifftiau o grwpiau anghorfforedig:

- Cymdeithas Anghorfforedig
- Ymddiriedolaeth Elusennol

## Ydych Chi'n Elusennol?

Diffinnir elusen yn y gyfraith yng Nghymru a Lloegr fel grŵp sydd â dibenion elusennol *yn unig*. Mae'n cael ei reoleiddio gan yr Uchel Lys. Mae'n rhaid i chi brofi eich bod yn bodoli er budd y cyhoedd. Os yw eich incwm yn fwy na £5,000 y flwyddyn neu os ydych chi'n Sefydliad Corfforedig Elusennol, rhaid i chi gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau. Edrychwch ar y canllawiau swyddogol ar wefan y Llywodraeth yma: https://www.gov.uk/government/publications/what-makes-a-charity-cc4/what-makes-a-charity-cc4

Byddwch yn ofalus! Nid yw "elusen" yn grŵp cyfreithiol ar ei ben ei hun. Mewn gwirionedd, mae'r rhan fwyaf o elusennau yn un o'r rhain:

- Cymdeithas Anghorfforedig
- Ymddiriedolaeth Elusennol
- Sefydliad Corfforedig Elusennol
- Cwmni Cyfyngedig trwy Warant
- Cymdeithas Budd Cymunedol Elusennol

Ni all y grwpiau hyn fod yn elusennau:

- Cwmni Budd Cymunedol (CIC)
- Cymdeithas Gydweithredol

Defnyddiwch y "Map Llwybr" syml yn y Ganolfan Adnoddau yma i weld beth ddylai strwythur cyfreithiol eich grŵp fod. https://www.resourcecentre.org.uk/information/routemap/

Os oedd y canllaw hwn yn rhy gymhleth, gallwch ei ddarllen mewn ffordd wahanol yma: https://mycommunity.org.uk/choosing-the-right-organisational-structure-for-your-group

Made possible with Heritage Fund

The Queen's Platinum Jubilee 2022

The Wildlife Trusts

# Natur Drws Nesaf

| Math o grŵp | Corfforedig neu anghorfforedig? | Elusennol neu ddim? | Ydi'r aelodau'n pleidleisio? | A ydyw wedi'i reoleiddio? | Gwybodaeth arall |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymdeithas Anghorfforedig | Anghorfforedig | Gall fod yn elusennol neu beidio | Nac ydynt | Nac ydi (oni bai ei fod yn elusennol hefyd) | Y math symlaf o grŵp cymunedol |
| Ymddiriedolaeth Elusennol | Anghorfforedig | Elusennol | Nac ydynt | Ydi – cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau os yw'r incwm dros £5,000 | Rhaid ysgrifennu gweithred ymddiriedaeth. Gweithredir gan grŵp bychan o bobl o'r enw ymddiriedolwyr. |
| Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO) | Anghorfforedig | Elusennol | Os yw'n Gymdeithas, bydd yr aelodau'n pleidleisio. Os yw'n Sefydliad, nid yw'r aelodau'n pleidleisio. | Ydi – cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau beth bynnag yw'r incwm | Rhaid defnyddio cyfansoddiad enghreifftiol sydd wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn Elusennau. Mae cofrestru'n cymryd hyd at 40 diwrnod. Symlach a rhatach na Chwmni Elusennol. |
| Cwmni Cyfyngedig trwy Warant (Cwmni Cyfyngedig) | Corfforedig | Gall fod yn elusennol neu beidio | Ydynt | Ydi - cofrestru a rheoleiddio gan Dŷ'r Cwmnïau | Rheolir gan gyfarwyddwyr. Dim cyfranddalwyr. Gall fod yn nid-er-elw, sy'n ailfuddsoddi incwm yn y grŵp. |

Made possible with Heritage Fund

The Queen's Platinum Jubilee 2022

The Wildlife Trusts

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cwmni Elusennol | Anghorfforedig | Elusennol | Ydynt | Ydi - cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau A'R Comisiwn Elusennau | Gall CIO fod yn symlach. |
| Cwmni Budd Cymunedol (CIC) | Corfforedig | Ddim yn elusennol, ond yn parhau i fod yn nid-er-elw fel menter gymdeithasol | Ydynt | Ydi - cofrestru gyda'r Rheoleiddiwr CIC, adran yn Nhŷ'r Cwmnïau | Mae asedau ac elw wedi'u hymrwymo i'r gymuned, ond gallwch gael cyfarwyddwyr sy'n cael tâl. |